

Cofion a Chyfarchion

- Cofiwn yn arbennig heddiw am Elizabeth Davies (Llanfair) a hithau wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ystod yr wythnos. Gweddiwn y bydd y gwaith hwn yn llwyddiannus ac y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle y bydd yn cryfhau ac y bydd yn adnabod gofal Duw drosti. Parhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) sydd yn Ysbyty Llandudno, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Da oedd clywed bod Meirion Evans (Henllan) wedi cael dod adref o'r ysbyty ddechrau'r wythnos. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Glenys Jones (Llanefydd) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig dydd Mawrth!

I ddod

- **CYFARFOD BLYNYDDOL CHWIORYDD ANNIBYNWYR Y GOGLEDD** yng Nghapel y Tabernacl, Llanrwst dydd Sadwrn, Ebrill 5ed am 2.00. Y siaradwraig wadd fydd y Parch Anita Parry Ephraim.
- Derbynnir **CYWEITHIAU'R YSGOLION SUL** ar y thema 'Dathliadau'r Beibl a'r Eglwys' nos Lun, Ebrill 7fed, yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos, rhwng 7 ac 8 o'r gloch.
- **NEW WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed – 12fed ac Ebrill 12fed-17eg. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 474 0009/www.newwordalive.org
- **CYFARFOD CYMDEITHASOL CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 8fed am 7.30. Y wraig wadd fydd y Parch. Nan Wyn Powell-Davies. Croeso cynnes i bawb.
- **LLANW** – Gŵyl Gristnogol i ddathlu'r atgyfodiad ar gyfer y teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Mae croeso i bawb, plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Croeso cynnes i'r di-Gymraeg ac i ddysgwyr; bydd offer cyfieithu ar gael. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Nolgellau dydd Mercher, Ebrill 30ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23^{ain} Mawrth 2014

Darlleniad y Dydd

Philipiad 2:5-11

(BCND tud.217 / BCN: tud.199)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Pa mor bwysig ydi emynau i chi? Dwi wrth fy modd yn dewis emynau i'w canu yn ystod oedfaon y Sul, ond dwi'n dal i gael trafferth hefo Caneuon Ffydd. Dwi'n methu'n glir a chael gafael ar rediad y llyfr a dwi'n mynd yn fwy ac yn fwy blin hefo'r gyfrol wrth i mi orfod chwilota a chwilota am yr un iawn – ond fy mhroblem i yw honno mae'n siŵr!

Mae'r darlleniad heddiw yn emyn gynnar o fawl i Grist. Iesu yw testun yr emyn a rhyfeddod ei Berson a'i waith sy'n ganolog – fel pob emyn da. Diolch fyth, does dim problem o gwbl gyda'r emyn hwn. Buaswn yn ei ddewis pob tro!

Sylwch sut mae'r emyn yn adeiladu i uchafbwynt o gyffes. Mae'n cychwyn hefo cydnabod Duwdod Iesu, rhyfeddu at ostyngeddwydd ei ymgnawoliad, at ei ufuddod hyd angau'r groes, am ei ddirchafiad gogoneddus ac am fod iddo nawr yr enw sydd uwchlaw pob enw. Ac yna daw'r emyn yn realiti i ni wrth iddo fynegi y bydd ein tafod ni – pob tafod a dweud y gwir – yn cyffesu Crist yn Arglwydd ac y bydd pob glin yn plygu i'w enw. A hyn i gyd er gogoniant Duw Dad. Go brin bod gwell emyn i'w gael!

'Amen' yw clo traddodiadol emyn. Ystyr hyn yw ein bod yn cytuno hefo'r cynnwys. Mae'n calon yn credu a'n genau yn cyffesu cynnwys yr emyn. Dyna pam mae'n bwysig i ni fod yn feirniadol o bob emyn o waith pobl. Mae'n anodd gen i ddweud 'Amen' i bob emyn yng Nghaneuon Ffydd ac felly fyddai ddim yn eu dewis. Hwyrach eich bod yn meddwl fy mod yn gul iawn wrth ddweud hyn, ond dwi'n credu y dylai pob emyn fod yn seiliedig ar y gyffes sydd yn yr emyn hwn yn y darlleniad heddiw.

Duwdod ac ymgnawdoliad Crist, gostyngeddwydd ac ufudd-dod Iesu, y groes a dyrchafiad Iesu, Arglwyddiaeth Iesu a'i awdurdod dros bob peth a phawb, gogoniant Duw – dyma gynhwysion yr emynau moliant gorau.

Gwnewch yn siŵr fy mod i yn dewis rhai fel hyn pob tro a phob bendith i chi wrth gyd-addoli heddiw. Croeso i oedfaon y dydd.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 46 (BCND tud.515 / BCN: tud.471)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Bydd **cyfarfod i ddiaconiaid ac arweinwyr eraill, swyddogion a phawb sydd â diddordeb**, yn Festri Lôn Swan, Dinbych am 7.00 i drafod gwaith diaconiaid yn ein heglwysi heddiw. Y Parch. Euros Wyn Jones fydd yn arwain y drafodaeth.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn **yng Nghapel Henllan** am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Hefyd, bydd **Pwyllgor Cymorth Cristnogol** yn dilyn Oedfa'r Fro heno.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun a bydd Aled a Nerys Jones yn cyflwyno Elsa Mair i'w bedyddio yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yno am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.